**Tystiolaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Busnes ar Gysylltiadau Rhyngwladol drwy Borthladdoedd a Meysydd Awyr**

## Cyflwyniad

1. Papur tystiolaeth ar y cyd yw hwn gan y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth a'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau. Ei nod yw helpu'r Pwyllgor Menter a Busnes gyda'i ymchwiliad i Borthladdoedd a Meysydd Awyr yng Nghymru.

## Pwysigrwydd Porthladdoedd a Meysydd Awyr Cymru

2. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd porthladdoedd a meysydd awyr fel rhan hanfodol o seilwaith economaidd a thrafnidiaeth Cymru.

3. Mae porthladdoedd effeithlon, hawdd eu cyrraedd, sydd â'r seilwaith priodol i ddelio â llif nwyddau a gwasanaethau – o fewn y porthladd ac i drefi pwysig – yn rhan o economi gystadleuol sy'n gallu hybu twf busnesau Cymru, yn hen a newydd.

4. Mae meysydd awyr Cymru a Maes Awyr Caerdydd yn benodol, fel prif faes awyr Cymru a'r unig un sy'n hedfan awyrennau i wledydd tramor yn rheolaidd, yn borth gwych i Gymru o Brydain a gwledydd eraill. Maent hefyd yn helpu i greu delwedd gadarnhaol o Gymru fel cenedl allblyg, a chanddi rwydwaith cysylltiadau cryf.

## Hwyluso Datblygiad Porthladdoedd a Meysydd Awyr Cymru

5. Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am bolisi porthladdoedd (ac eithrio porthladdoedd pysgota bach) a meysydd awyr, ond mae Gweinidogion Cymru, wrth arfer pwerau ym meysydd datblygu economaidd a thrafnidiaeth, yn cael digon o gyfle i ddylanwadu ar borthladdoedd a meysydd awyr.

6. Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth a'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau sy'n rhannu cyfrifoldeb y portffolio. Mae hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd datblygu porthladdoedd a meysydd awyr Cymru fel canolfannau economaidd a thrafnidiaeth a'r arfer ar hyn o bryd o gydweithio.

7. Gan mwyaf, busnesau masnachol preifat yw porthladdoedd a meysydd awyr. Mae Cymorth Gwladwriaethol a gweithdrefnau cystadleuaeth yn cyfyngu ar yr hyn y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i'w helpu i ddatblygu a thyfu.

## Perfformiad Maes Awyr Caerdydd

8. Yn ôl ystadegau diweddaraf yr Awdurdod Hedfan Sifil am feysydd awyr (ar gyfer 2011), Maes Awyr Caerdydd yw'r 20fed maes awyr yn y DU o ran nifer teithwyr. Mae llawer o bobl sy'n teithio ar awyren er mwyn dod i Dde Cymru neu fynd oddi yno yn defnyddio meysydd awyr Bryste, Birmingham neu Heathrow. Dywedant mai'r rheswm am hyn yw mwy o ddewis llwybrau teithio ac amseroedd gadael a chyrraedd, a phrisiau is. Mae'r un peth yn digwydd yng Ngogledd Cymru lle mae mor hawdd mynd i feysydd awyr Manceinion a Lerpwl.

**Polisi Llywodraeth Cymru i Ddatblygu Cyfleoedd Economaidd**

**Porthladdoedd**

9. Mae porthladdoedd yng Nghymru yn bwysig o ran datblygiad economaidd ac yn asedau y gellir eu datblygu er lles cyffredinol economi Cymru. Maent o bwys strategol ac yn arbennig o berthnasol i nifer o sectorau blaenoriaeth, sef Ynni a'r Amgylchedd a Thwristiaeth. Mae ganddynt hefyd rôl ehangach o ran cludo nwyddau.

<u>Y Sector Ynni a'r Amgylchedd</u>

10. I ryw raddau, mae porthladdoedd yng Nghymru yn cystadlu â phorthladdoedd ledled y DU. I sicrhau'r cyfleoedd newydd mwyaf posibl yn y farchnad ynni, mae angen dal ati i fuddsoddi ynddynt er mwyn iddynt barhau'n gystadleuol. Mae yna borthladdoedd dŵr dwfn ym Mhort Talbot a Chaergybi ac maent mewn sefyllfa ddelfrydol ar gyfer y farchnad ynni ar y môr. Bydd angen buddsoddi yn rhywfaint o seilwaith y porthladdoedd er mwyn gallu derbyn llongau mwy o faint a delio â chyfarpar ynni ar y môr. Mae cyfleoedd sylweddol yn y sector Ynni a'r Amgylchedd ac rydym yn ymchwilio i bosibiliadau cyllid er mwyn manteisio ar y rhain mewn perthynas â phorthladdoedd ac ynni. Rydym hefyd am werthuso'r budd a fyddai'n deillio o hyn i sicrhau bod manteision economaidd prosiectau ynni ar y môr, a phrosiectau morol a biomas yn dod i Gymru.

<u>Y Sector Twristiaeth</u>

11. Mae datblygiadau yn y farchnad mordeithiau yn creu cyfleoedd sylweddol i borthladdoedd yng Nghymru ddod yn bwysicach fyth i'w heconomi leol a chenedlaethol. Mae nifer o borthladdoedd Cymru, gan gynnwys Casnewydd, Caerdydd, Abertawe, Aberdaugleddau a Chaergybi, wedi llwyddo i ddenu cwmnïau mordeithio. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda gweithredwyr porthladdoedd a chwmnïau mordeithio i'w gwneud yn haws i longau o'r fath ymweld â phorthladdoedd Cymru.

12. Mae gwasanaethau fferi hefyd yn bwysig. Yn ystod 2010, aethpwyd â 728,000 o gerbydau teithwyr i Weriniaeth Iwerddon ac yn ôl, cynnydd o 4 y cant o gymharu â 2009. Yn ystod 2010, teithiodd ychydig o dan 3 miliwn ar y môr i Weriniaeth Iwerddon ac yn ôl, 6 y cant yn fwy nag yn 2009. Mae angen seilwaith porthladdoedd modern ar fferis teithwyr modern a

chysylltiadau da o ran ffyrdd a rheilffyrdd fel bod teithwyr yn gallu parhau'n hwylus â'u taith.

<u>Cludo Nwyddau</u>

13. Yn ogystal â chludo teithwyr, mae rôl gan ein porthladdoedd o ran dosbarthu nwyddau. Yn 2010 aeth dros 60 miliwn o dunelli o nwyddau domestig a thramor drwy borthladdoedd yng Nghymru, 13 y cant yn fwy nag yn 2009. Gwelodd Aberdaugleddau gynnydd yn y tunelli nwyddau yn ystod y dirywiad a'r dirwasgiad economaidd yn 2007-2010. Ni welodd un porthladd arall yn y DU sy'n rhan o'r Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd arfaethedig gynnydd o ran tunelli nwyddau yn ystod y cyfnod hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn hwyluso'r broses o symud nwyddau drwy borthladdoedd drwy fuddsoddi yn y rhwydwaith ffyrdd a rheilffyrdd.

**Meysydd Awyr**

14. Mae Maes Awyr Caerdydd yn unigryw ymhlith meysydd awyr Cymru oherwydd ei faint cymharol a'i bwysigrwydd fel unig faes awyr rhyngwladol Cymru. O holl feysydd awyr Cymru, Maes Awyr Caerdydd oedd wastad yn mynd i gael yr effaith fwyaf ar y sector awyrofod a'r economi ehangach yng Nghymru. Mae gwaith fel cynnal a chadw, atgyweirio ac ailwampio (MRO) awyrennau yn arwain at weithgareddau ymchwil a datblygu eraill. Mae'r clwstwr MRO cryf a'r canolfannau sgiliau yn ardal Sain Tathan a Maes Awyr Caerdydd yn allweddol o ran ei staws fel Ardal Fenter.

15. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymchwilio i wahanol ffyrdd o ddenu gwasanaethau newydd i Faes Awyr Caerdydd ac wedi cymryd camau yn hyn o beth. Llwyddwyd i ddenu a chynnal rhai llwybrau newydd i Faes Awyr Caerdydd ac oddi yno ac mae'r gwaith marchnata hwn yn parhau.

17. Ymhlith y camau i wella'r cysylltiadau trafnidiaeth i Faes Awyr Caerdydd mae ariannu cyswllt bws uniongyrchol o'r maes awyr i ganol dinas Caerdydd, bws gwennol penodol o orsaf y Rhws i'r maes awyr, a rhoi arian i Fro Morgannwg i wella'r 'Lôn Pum Milltir'.

**Trafod â Llywodraeth y DU**

18. Mae Gweinidogion Cymru yn trafod yn rheolaidd â swyddogion sy'n gweithredu ar lefel y DU ar bolisi porthladdoedd a meysydd awyr, gan gynnwys, fel ag yn achos porthladdoedd ymddiriedolaeth, pwyso ar Ysgrifenyddion Gwladol dros Drafnidiaeth i ddatganoli pwerau.

19. Mae Llywodraeth Cymru mewn trafodaethau, o dan arweiniad yr Adran Drafnidiaeth, ynghylch fframwaith y Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd. Mae'r fframwaith hwn yn nodi llwybrau ffyrdd a rheilffyrdd, porthladdoedd a meysydd awyr sy'n arbennig o bwysig o ran cysylltiadau rhyngwladol. O dan y fframwaith presennol, cydnabyddir holl brif borthladdoedd a therfynbwyntiau fferis Cymru yn ogystal â Maes Awyr Caerdydd.

20. Ar ran Llywodraeth Cymru, mae'r Adran Drafnidiaeth wedi cyflwyno cais ysgrifenedig i'r Comisiwn ar i Aberdaugleddau gael ei gynnwys fel porthladd craidd. Mae Network Rail wrthi ar hyn o bryd yn ymchwilio i ymarferoldeb hyn, gwaith sydd wedi'i gomisiynu gan Gyngor Sir Penfro mewn partneriaeth ag Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau, gyda'r bwriad o wella'n fwy byth y cysylltiadau rheilffyrdd i gludwyr nwyddau sy'n defnyddio'r porthladd.

.

**Rheolau a Chanllawiau Cymorth Gwladwriaethol Ewrop**

21. Wrth wneud gwaith ar borthladdoedd a meysydd awyr, yn benodol o ran datablygu llwybrau a chymorth ariannol, mae'n rhaid i Lywodraeth aCymru gadw rheolau Cymorth Gwladwriaethol mewn cof. Diben y rhain yw hyrwyddo a gwarchod cystadleuaeth deg o fewn porthladdoedd a meysydd awyr Ewrop a rhyngddynt.

22. Mae rheolau Cymorth Gwladwriaethol yn cyfyngu'n sylweddol ar yr opsiynau sy'n agored i Lywodraeth Cymru o ran helpu porthladdoedd a Maes Awyr Caerdydd i gyflwyno / datblygu llwybrau newydd. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru fod yn arloesol yn hyn o beth er mwyn cydymffurfio â'r rheolau.

**Crynodeb**

23. Mae porthladdoedd a meysydd awyr yng Nghymru yn wynebu heriau tebyg. Mae'n rhaid iddynt barhau i fod yn gystadleuol ar lefel y DU ac yn rhyngwladol; ac mae angen buddsoddi'n barhaus yn eu seilwaith er mwyn gallu gwneud hyn. Mae budd amlwg i Lywodraeth Cymru o gefnogi'r pyrth rhyngwladol hyn i Gymru gan eu bod yn creu manteision economaidd ehangach ac yn hyrwyddo lles Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda gweithredwyr porthladdoedd a meysydd awyr o fewn y canllawiau cyfreithiol a'r rheoliadau sy'n bodoli i sicrhau bod digon o arian yn cael ei fuddsoddi ynddynt fel y gallant barhau i fod yn gystadleuol a sicrhau cyfleoedd buddsoddi newydd. Bydd Gweinidogion Cymru hefyd yn mynd ati'n egnïol i bwyso am bwerau ychwanegol lle bo modd, fel y bydd ganddynt bob dyfais bosibl i weithredu dros Gymru.